



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam

Egwyddorion allweddol y rhaglen dysgu carlam.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Awst 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 21 Awst 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/recrwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyd-destun

Egwyddor 1: y dysgwyr sydd â'r angen mwyaf: y carfanau yr effeithiwyd arnynt

Egwyddor 2: y cwricwlwm ar gyfer recriwtio, gwella, a chodi safonau: meysydd lle y dylai dysgwyr gael cymorth

Egwyddor 3: Ehangu capasiti: yr hyn y bwriedir i'r cyllid ei ddarparu

Egwyddor 4: lleihau biwrocratiaeth a sicrhau tryloywder

Egwyddor 5: Egwyddor Cydweithio

Cyd-destun

Yn ystod yr argyfwng mae'n amlwg nad yw llawer o ddysgwyr wedi datblygu cymaint ag y gallen nhw o ran eu cynnydd mewn dysgu, gyda rhai wedi cael eu heffeithio'n fwy difrifol nag eraill. Mae tystiolaeth o amryw o ffynonellau dibynadwy (OECD, ARC, Estyn, y Rhanbarthau, Ymddiriedolaeth Sutton, y Comisiynydd Plant, Barnardos, diweddariadau gwybodaeth rhyngwladol), gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar Gymru, yn awgrymu bod y rhan fwyaf neu'r holl ddysgwyr wedi cael eu heffeithio, ac mai'r rhai mwyaf agored i niwed sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf. Dylid darllen y sylwadau yn y papur hwn yng nghyd-destun [Canllawiau Dysgu Llywodraeth Cymru](#), a luniwyd i lywio ymarfer wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020.

Egwyddor 1: y dysgwyr sydd â'r angen mwyaf: y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

carfanau yr effeithiwyd arnynt

Ymddengys ar hyn o bryd mai'r carfanau yr effeithiwyd arnynt fwyaf yw'r isod:

1. Disgyblion sy'n paratoi ar gyfer arholiadau yn y flwyddyn academaidd sydd i ddod (blynyddoedd 11, 12 a 13) (Nodyn i benaethiaid ysgolion sydd â chweched dosbarth – yn ogystal â'r adnodd y cyfeirir ato yma, mae cynnydd yn y cyllid ar gyfer y chweched dosbarth i ddiwallu anghenion blynyddoedd 12 a 13 – Mae'r un egwyddorion yn berthnasol i'r ddwy ffynhonnell o gyllid) sydd â chymharol ychydig o amser rhwng dychwelyd i'r ysgol â sefyll arholiadau cyhoeddus a fydd yn pennu'r cyfleoedd a fydd ar gael iddynt yn y dyfodol
2. Plant sy'n agored i niwed a rhai difreintiedig, fel y'u diffinnir drwy amrywiaeth o ddulliau, ond gan gynnwys y plant a'r teuluoedd tlotaf, dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, dysgwyr o gymunedau BAME a dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n byw mewn cartrefi di-Gymraeg
3. Blwyddyn 7, oherwydd y tarfu ar y trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Mae'r dadansoddiad carfanau uchod yn cyd-fynd â chanfyddiadau llawer o wledydd a thiriogaethau eraill sydd â nodweddion tebyg i Gymru, ac mae wedi llywio'r broses o ddyrannu cyllid, a bydd yn nodi'r grwpiau â blaenoriaeth yr ydym yn disgwyl i'r gwaith a wnawn fynd i'r afael â hwy. Dylem nodi, serch hynny, y bydd unigolion eraill y bydd angen cymorth arnynt nad ydynt yn y grwpiau hyn, ac mae'n egwyddor bwysig fod penaethiaid yn penderfynu pa grwpiau ac unigolion a fydd yn cael cymorth.

Egwyddor 2: y cwricwlwm ar gyfer recriwtio, gwella, a chodi safonau: meysydd lle y dylai dysgwyr gael cymorth

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn Cenhadaeth ein Cenedl, diwygio'r cwricwlwm yw ein prif flaenoriaeth ar gyfer addysg yng Nghymru o hyd. Mae'n hanfodol bod yr holl waith rydym yn ei wneud gyda'r system addysg yng nghyd-destun

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Covid-19 yn cyd-fynd a'r arfer gorau yn rhyngwladol; dyna sydd hefyd yn sail i'n cynigion i ddiwygio'r cwricwlwm. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn cwricwlwm eang a chytbwys – ar gyfer y blynyddoedd arholi, bydd hyn yn cynnwys sgiliau darllen ac ysgrifennu uwch, mathemateg lefel uchel lle bo'n berthnasol, a chymhwysedd digidol ar y lefel briodol ac sy'n berthnasol i ddysgwyr sy'n bwrw ymlaen i gael cymwysterau
- Datblygu sgiliau dysgu annibynnol, er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr ym mhob grŵp gyflymu eu cynnydd drwy weithio'n fwy effeithiol ar eu pennau eu hunain ac ar wahân i'r ysgol, a'u cymell i wneud hynny
- Cefnogi ac ysgogi drwy goetsio – gan ein bod yn cydnabod y bydd angen hyfforddiant a chefnogaeth emosiynol ar y dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf o addysg, yn ogystal â chymorth i baratoi i sefyll arholiadau ac i ddysgu sgiliau ar gyfer eu sefyll.

Bydd y ffocws hwn yn arbennig o berthnasol i'r carfanau â blaenoriaeth. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod ein dulliau gweithredu o ran y cwricwlwm a dysgu yn hybu hygrededd a dilysrwydd cyfres arholiadau 2021 ac yn gyson â hynny.

Egwyddor 3: Ehangu capasiti: yr hyn y bwriedir i'r cyllid ei ddarparu

Ein hymateb i'r sefyllfa yw neilltuo adnoddau ariannol i greu capasiti newydd yn y system. Mae'r buddsoddiad bron yn £29 miliwn a bydd yn ddigon i gynyddu capasiti yn y system sydd gyfwerth â 600 o athrawon a 300 o gynorthwywyr addysgu. Yn ogystal â hyn, byddwn yn defnyddio ein buddsoddiad presennol mewn Dysgu Proffesiynol, y seilwaith digidol, cysylltedd, dyfeisiau a chynnwys i gyfoethogi'r profiadau y mae ysgolion yn eu darparu i ddysgwyr. Nid ydym yn dymuno gosod cyfyngiadau ar benaethiaid ynghylch sut i fynd ati i benodi ac i ddefnyddio'r capasiti newydd hwn, felly rydym yn cydnabod y canlynol:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/recruiwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Caiff ysgolion benodi athrawon, cynorthwywyr addysgu a rolau eraill yn yr ysgol sydd wedi'u cynllunio i ddarparu coetsio megis Gweithwyr Ieuenctid, yn unol â dealltwriaeth yr ysgol o'i dysgwyr
- Caiff y capasiti newydd fod yn amser llawn neu'n rhan-amser
- Efallai y bydd y cydweithwyr newydd yn gweithio ar draws mwy nag un ysgol
- Caiff penaeithiaid benodi athrawon newydd i'r ysgol er mwyn rhyddhau'r rhai sy'n adnabod eu disgyblion orau i weithio gyda hwy i gyflymu eu cynnydd
- Efallai y bydd achosion lle y caiff grŵp o gydweithwyr newydd ei recriwtio i weithio ar draws clwstwr cyfan neu bartneriaeth gydweithredol
- Bydd angen i sgiliau cydweithwyr newydd adlewyrchu anghenion grwpiau a dysgwyr
- Bydd y model cyflawni y bydd cydweithwyr newydd yn gweithio ynddo yn benodol i anghenion yr ysgol a'i dysgwyr

Egwyddor 4: lleihau biwrocratiaeth a sicrhau tryloywder

Mae dyrannu'r lefel yma o fuddsoddiad mewn prosiect ar adeg pan fo'r system addysg a thu hwnt o dan straen ariannol difrifol, yn golygu bod angen i ni sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau'n dda. Ar yr un pryd, rydym eisiau cyn lleied o waith papur â phosibl, felly rydym yn cynnig:

- Dylai'r ysgol nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud â'r adnoddau mewn ffordd syml, gan nodi nifer y disgyblion a gynhwysir ac amlinelliad o'r cwricwlwm a'r ffordd y defnyddir staff i ddatrys mater
- Dylai Cynghorydd Herio'r ysgol gytuno ar hyn yn achos ysgolion sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd yn rhai sydd angen cymorth ar lefel coch neu oren
- Dylai'r Corff Llywodraethu gytuno ar y bwriad a sicrhau ei fod ar gael i rieni a chymuned yr ysgol
- Fel cyfundrefn addysg, byddwn yn cynnal 'briff dysgu' drwy rannu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas ag effaith y rhaglen wrth iddi ddatblygu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Egwyddor 5: Egwyddor Cydweithio

Rhanbarthau, Awdurdodau Lleol, Prifysgolion a Phartneriaid Eraill

Rydym am annog partneriaid strategol ym maes addysg i gydweithio i gefnogi'r gwaith hwn. Rydym eisoes yn gweld enghreifftiau o hyn yn dod i'r amlwg ar draws y system, a bydd y gweithgarwch hwn yn rhoi cyfleoedd pellach i'r Rhanbarthau, Awdurdodau Lleol, Prifysgolion, Colegau Addysg Bellach a Phartneriaid eraill gefnogi plant, teuluoedd ac ysgolion wrth ddychwelyd i'r ysgol.

Cydweithio ar lefel ysgol

Rydym am annog clystyrau a grwpiau cydweithredol o ysgolion i gronni eu hadnoddau er mwyn cyrraedd maint manteisiol o ran cynyddu capasiti. Gall hyn yn cynnwys cydweithio ar draws camau, cydweithio rhwng ysgolion ar yr un cam a chydweithio yn seiliedig ar gyflawni mewn partneriaeth o ran y chweched dosbarth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/recrwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/recrwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).